# Tyfu a Rhannu / Grow and Share

Rhaglen Gelfyddydau Awyr Agored Articulture (Cymru)

**Beth yw hyn?**

Mae Tyfu a Rhannu yn helpu artistiaid yng Nghymru.

Mae'n cefnogi **celfyddydau awyr agored.**

Mae'n helpu artistiaid i:

- ddatblygu gwaith sydd eisoes ar y gweill ymhellach
- cael cefnogaeth a mentora
- rhannu gwaith gyda gwyliau a rhaglenwyr

👉 Mae'r rhaglen hon ar gyfer **gwaith sy'n cael ei wneud eisoes**.
� **Nid ydym yn ariannu syniadau newydd sbon.**

**Gyda pha fath o waith alla i wneud cais?**

Rhaid i'r gwaith fod:

- ar gyfer **perfformiad awyr agored**
- **eisoes ar y gweill**

Er enghraifft:

- theatr stryd
- syrcas
- dawns
- pypedwaith
- perfformiadau cerdded (walkabout)
- gwaith cyfranogol

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Pwy yw Articulture?**

Mae Articulture yn cefnogi celfyddydau awyr agored yng Nghymru.

Rydym yn:

- gweithio gydag artistiaid ar wahanol gyfnodau
- helpu artistiaid i ddatblygu eu gwaith
- cysylltu artistiaid â chynulleidfaoedd a gwyliau

**Beth gewch chi os cewch eich dewis?**

Os cewch eich dewis, byddwch yn cael:

- Hyd at **12 awr o fentora â thâl**
- Cefnogaeth gan **gynhyrchydd**
- Cymorth gyda:
    - marchnata
    - gwybodaeth dechnegol
    - gwybodaeth am fynediad
- **Tâl** i gymryd rhan yn yr arddangosfa
- **Fideo wedi'i ffilmio** o'ch gwaith
- **Fideo hyrwyddo 1 munud**
- Cyfleoedd i gwrdd â threfnwyr gwyliau a rhaglenwyr

**Pryd mae'n digwydd?**

- Gwanwyn a haf **2026**
- Arddangosfa **ddiwedd mis Medi 2026**
- Bydd yr arddangosfa'n **hygyrch**
- Cynhelir yr arddangosfa **yng Nghymru**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARTICULTURE

## Pwy all wneud cais?

Gallwch wneud cais os ydych:

- yn byw **yng Nghymru**
- yn gwneud gwaith awyr agored
- ar **unrhyw gam gyrfa**

Gallwch wneud cais:

- ar eich pen eich hun
- neu fel grŵp bach (hyd at 4 person)

Rydym yn croesawu artistiaid sydd:

- heb gynrychiolaeth ddigonol mewn celfyddydau awyr agored

Gallwch wneud cais yn/drwy:

- Gymraeg
- Saesneg
- BSL

## Yr hyn NAD ydym yn ei ariannu

Nid ydym yn ariannu:

- comisiynau newydd
- gwaith teithio gorffenedig
- costau offer

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae **un set o gwestiynau**.

Chi sy'n dewis **sut i ateb**.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARTICULTURE

**Dewiswch un opsiwn:**

**Opsiwn 1: Sgwrs â chymorth**

Gallwch ofyn i siarad â rhywun o Articulture.

Gallwch ofyn am gymorth, er enghraifft:

- dehonglydd BSL
- sgwrs yn Gymraeg
- cymorth mynediad arall

I ofyn am sgwrs, cysylltwch â: sarahyounan@articulture-wales.co.uk

**Opsiwn 2: Cais ysgrifenedig**

- llenwch ein ffurflen: https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfTwdaVyeTcG1zmafuPRAyZC0MWxKCBpu3tBGOt2L1Isbvblw/viewform?usp=sharing&ouid=113745872399459229301
- Mae pwyntiau bwled y iawn
- Atebwch bob cwestiwn

**Opsiwn 3: Fideo neu neges lafar**

- Hyd at **8 munud**
- Wedi'i recordio ar eich ffôn neu gyfrifiadur
- Mae anffurfiol yn iawn

**Y cwestiynau:**

**Eich cefndir**

- Beth yw eich enw?

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARTICULTURE

- Ble ydych chi wedi'ch lleoli?
- Sut ddylem ni gysylltu â chi?
- Pa iaith sydd orau gennych chi?

**Am y gwaith**

- Beth yw enw’r gwaith?
- Sut fath o waith ydyw?
- Ar ba gam mae’r gwaith?
- Pwy sy’n cymryd rhan?

**Cefnogaeth**

- Pa gefnogaeth fyddai fwyaf defnyddiol i chi?

**Mynediad**

- Oes angen cymorth arnoch i wneud cais?
- Oes angen cymorth arnoch yn ystod y rhaglen?

Gallwch anfon lluniau neu fideos os ydych yn dymuno.

**Anfonwch eich cais at:**

sarahyounan@articulture-wales.co.uk ac info@articulture-wales.co.uk

**Dyddiadau Pwysig**

- **Dyddiad cau:** Dydd Iau 4 Mehefin 2026, 5pm
- **Byddwch yn clywed yn ôl:** Canol mis Mehefin 2026

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government